**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (CYFFORDD 10 (CYFNEWIDFA FFORDD CAERNARFON), BANGOR, GWYNEDD I GYFFORDD 8 (CYFNEWIDFA LLANFAIRPWLL), YNYS MÔN) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2022**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon), Gwynedd a Chyffordd 8 (Cyfnewidfa Llanfairpwll), Ynys Môn.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. cau naill ai cerbytffordd tua'r dwyrain neu gerbytffordd tua'r gorllewin y darn o gefnffordd yr A55 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Bydd gwrthlif yn weithredol yn lôn allanol pa gerbytffordd bynnag a fydd yn aros ar agor i draffig;

ii. gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith) rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A55 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn;

iii. gwahardd cerbydau sy'n lletach na 3.2 metr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A55 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Caiff unrhyw gerbydau o'r fath eu cyfarwyddo i barcio mewn cilfannau dynodedig a chânt eu hebrwng drwy safle'r gwaith;

iv. gosod terfyn cyflymder o 50 mya, 40 mya, 30 mya, 20 mya neu 10 mya (ar gyfer gwaith confoi) ar y darn o gefnffordd yr A55 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Bydd y terfynau cyflymder is yn weithredol yn ysbeidiol yn ystod cyfnodau'r gwaith. Ni chaniateir goddiweddyd pan fydd gwaith confoi yn digwydd;

v. gwahardd beicwyr a cherddwyr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A55 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Disgwylir y bydd unrhyw gyfnodau pan fydd y ffordd ar gau yn llwyr yn cael eu rheoli gan oleuadau traffig ac ond yn para am gyfnodau byr a gosodir arwyddion traffig ymlaen llaw yn dangos y cyfnodau hynny. Nid oes angen unrhyw lwybrau dargyfeiriol.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 22 Mehefin 2022. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro yn weithredol dros nos (19:00 – 05:00 o'r gloch) o 22 Mehefin 2022 hyd 23 Hydref 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

**THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 10 (CAERNARFON ROAD INTERCHANGE), BANGOR, GWYNEDD TO JUNCTION 8 (LLANFAIRPWLL INTERCHANGE), ANGLESEY) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS) ORDER 2022**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 10 (Caernarfon Road Interchange), Gwynedd and Junction 8 (Llanfairpwll Interchange), Anglesey.

The effect of the Order is to temporarily:

i. close either the eastbound or westbound carriageway of the length of the A55 trunk road specified in the Schedule to this Notice. Contraflow will operate in the offside lane of whichever carriageway remains open to traffic;

ii. prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works) from proceeding on the length of the A55 trunk road specified in the Schedule to this Notice;

iii. prohibit vehicles over 3.2 metres wide from proceeding on the length of the A55 trunk road specified in the Schedule to this Notice. Any such vehicles will be directed to park in designated lay-bys and will be escorted through the works site;

iv. impose a 50 mph, 40 mph, 30 mph, 20 mph or 10 mph speed limit (for convoy working) on the length of the A55 trunk road specified in the Schedule to this Notice. The reduced speed limits will operate intermittently during the work periods. No overtaking will be permitted when convoy working is operating;

v. prohibit cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the A55 trunk road specified in the Schedule to this Notice.

Any full road closures, which will be indicated by advance traffic signs, will be controlled under traffic lights and are only expected to be for short periods of time. No diversionary routes are necessary.

The Order comes into force on 22 June 2022. The temporary prohibitions and restrictions are expected to operate overnight (19:00 – 05:00 hours) from 22 June 2022 until 23 October 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darn o gefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon), Gwynedd hyd at ganolbwynt Cyffordd 8 (Cyfnewidfa Llanfairpwll), Ynys Môn.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE**

The length of the A55 trunk road that extends from the centre of Junction 10 (Caernarfon Road Interchange), Gwynedd to the centre of Junction 8 (Llanfairpwll Interchange), Anglesey.